# Ar goll heb y gefnogaeth gywir

Felly, rydyn ni'n gweithio o fewn gwasanaeth sy'n cynnig ymyrraeth gynnar ac ymyriadau therapiwtig i deuluoedd.

Mae gan y rhan fwyaf o'n teuluoedd niwroamrywiaeth o fewn eu teuluoedd.

Rydyn ni'n clywed eu bod yn aros am ddiagnosis ac wedyn eu bod yn teimlo nad oes unrhyw gefnogaeth wedi iddyn nhw gael diagnosis a phethau felly.

Wrth feddwl am pan fyddan nhw'n mynd trwy'r gwasanaethau cymdeithasol, mae'r teuluoedd yn teimlo nad ydyn nhw'n cael eu clywed.

Nid yw gweithwyr proffesiynol yn gwybod sut beth yw hi i fod yn aelod o'u teulu. Beth bynnag maen nhw'n ei wneud, dydy hynny ddim yn ddigon da a dydyn nhw ddim yn gwybod at bwy i droi i ofyn am gefnogaeth yn y lle y maen nhw'n byw.

Maen nhw'n teimlo fel nad yw pobl yn deall ac nad yw gwasanaethau'n helpu.

Felly pan rydyn ni'n gweithio, rydyn ni'n gwrando, ond dydyn ni ddim yn wasanaeth arbenigol. Gwasanaeth ymyrraeth gynnar a therapiwtig ydyn ni, ac rydyn ni'n ceisio sicrhau bod cefnogaeth yn cael ei gynnig a'n bod ni'n cyfeirio'n briodol.

Ond yr hyn rydyn ni'n ei weld yw nad oes gennym hud a lledrith i ateb pob galw sydd arnom ni. Ac yn aml, nid oes ateb cywir i'w gael.

Ond weithiau gall y polisïau a'r systemau greu cyfyngiadau ac mae'n amhosibl gwneud newidiadau o fewn y teulu hwnnw oherwydd bod polisïau yn eu caethiwo a'u bod mor gyfarwyddiadol ac yn eithaf gwrthrychol yn yr hyn maen nhw'n ei ddisgwyl, sy'n gwneud y gwaith yn amhosibl ei gyflawni i'r teuluoedd rydyn ni'n eu cefnogi.

Rydyn ni'n teimlo'n rhwystredig, yn sownd ac yn anobeithiol. Rydyn ni'n teimlo ein bod wedi'n cyfyngu yn yr hyn allwn ni ei wneud.

Ac o ganlyniad, rydyn ni'n teimlo bod ein sgiliau a'n cymwyseddau fel gweithwyr proffesiynol yn cael eu cwestiynu, sy'n golygu ein bod yn aml yn teimlo bod ein hymreolaeth broffesiynol yn cael ei chyfyngu ac nad ydyn ni'n gwybod sut i gynnig cefnogaeth, sy'n ddiddorol oherwydd dyma'n union y mae ein teuluoedd yn ei deimlo.

Rydyn ni'n teimlo'n union yr un fath â'n teuluoedd. Yn sownd. Ddim yn siŵr beth yw'r ateb cywir ar gyfer sicrhau newid.

Felly, rwy'n credu mai'r hyn yr hoffem ei weld yn digwydd yw gweld dull system gyfan, newid mewn persbectif a fyddai'n cynnwys datblygiadau o ran arweinyddiaeth, gwasanaethau a sut rydyn ni'n newid persbectif mewn cymunedau er mwyn cefnogi teuluoedd.

Rydyn ni'n credu bod angen dangos tosturi tuag at bawb: tosturi tuag at bobl o fewn y systemau, tosturi tuag at y gweithwyr a'r ymarferwyr sy'n gweithio o amgylch y teuluoedd, ac arweinyddiaeth dosturiol.

Oherwydd os ydych yn seilio eich ymyrraeth ar dosturi, o ran y gefnogaeth rydych chi'n ei gynnig, does dim ots am hyfforddiant, does dim ots am bolisïau, rydych chi wir yn rhoi'r teulu wrth wraidd y cyfan.

Felly'r hyn yr hoffem ei weld yw dull tosturiol sy'n canolbwyntio ar y teulu ac sy'n gysylltiedig â gwasanaethau eraill.

Felly cyfathrebu da gyda gwasanaethau eraill, cysylltiad yn y gymuned a chefnogaeth sy'n seiliedig ar gryfderau, yn hytrach na chefnogaeth ormesol.

Edrych ar gryfderau pobl, beth maen nhw'n ei wneud yn dda, sut allwn ni ychwanegu gwerth at fywydau pobl ar sail eu cryfderau.

Canolbwyntio ar berthnasoedd a dulliau perthynol.

Ymgysylltu â sefyllfaoedd pobl yn eu timau, ymgysylltu â sefyllfaoedd pobl yn y gymuned a bod yn hyblyg o ran ein dulliau ni.

Drwy fod yn dosturiol gallwn ni roi tosturi wrth wraidd ein dull ni, rhoi pobl yn gyntaf, rhoi pobl wrth wraidd ein newid a helpu i ddeall pobl ar lefel bersonol.